**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Rhoddir hysbysiad yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig gwneud newid rheoledig i Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig ar ffurf helaethiad. Byddai'r trefniant dau safle presennol yn dod i ben. Byddai adran babanod Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn adleoli o'i lleoliad presennol yn Commercial Street, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6DN, i adeilad ysgol gynradd newydd ar safle presennol adran iau Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET.

Cynhelir Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cynigir gweithredu'r cynnig ym mis Medi 2025.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/ymgynghoriadau-sydd-wedi-cau/ymgynghoriad-ysgol-gynradd-mynydd-cynffig/

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fydd yr awdurdod derbyn.

Y nifer derbyn ar gyfer y grŵp oedran 4-5 yn yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ehangach, yn y flwyddyn ysgol gyntaf y bydd y cynigion wedi cael eu rhoi ar waith, sef Medi 2025, fydd 60. Y capasiti arfaethedig fydd 420. Bydd gan yr ysgol 75 o leoedd meithrin cyfwerth ag amser llawn (CALl). Nifer y disgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 383 (ar gyfer disgyblion rhyw cymysg 4-11 oed) ynghyd â 53 o ddisgyblion meithrin amser llawn a 7 o ddisgyblion meithrin rhan amser; capasiti disgyblion presennol yr

ysgol yw 397 (ar gyfer disgyblion rhyw cymysg 4-11 oed) ynghyd â 62 o ddisgyblion meithrin.

Mae'r trefniadau ar gyfer cludo disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol cyfredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn Dydd Sul 3 Ebrill 2022 caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

Rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i:
Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
d/o Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
CF31 4WB

Neu eu hanfon drwy'r e-bost at: edsu@bridgend.gov.uk

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed (ac nas tynnwyd yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'u hymateb iddynt, cyn diwedd saith diwrnod fydd yn dechrau ar y diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig.

Llofnodwyd:

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

# Nodyn esboniadol

Mae’r cynnig yn golygu y byddai’r trefniant safle rhanedig presennol yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn dod i ben ac y byddai’r adran fabanod yn adleoli o’r safle presennol yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6DN i adeilad ysgol gynradd newydd ar safle iau presennol Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig yn Stryd Pwllygath, Mynydd Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33 6ET. Byddai’r ddarpariaeth newydd yn agor o fis Medi 2025. Byddai'r adeilad newydd wedi cael ei ddylunio ar gyfer 420 o ddysgwyr 4-11 oed a 75 o ddysgwyr meithrin CALI. Bydd ardal bresennol y dalgylch yn aros yr un fath.

Mae'r cyngor wedi dod â'r cynnig hwn ymlaen i adeiladu Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig newydd er mwyn:

- darparu lleoedd ychwanegol i ddisgyblion cynradd i wasanaethu dalgylch traddodiadol yr ysgol a thrwy hynny liniaru gorlenwi;
- mynd i'r afael â materion cyflwr adeiladau; a
- dod ag adran y babanod a’r adran iau at ei gilydd ar un safle.

Byddai'r adeilad ysgol newydd arfaethedig wedi'i ddylunio'n addas i gwrdd â’r gofynion ar gyfer darparu cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu.